# GWNEWCH EICH DIGWYDDIAD YN UN COFIADWY

**Wrth i'ch cynlluniau ddechrau ar gyfer ymuno â dathliadau 80 mlynedd ers Diwrnod VE, mae digon o ffyrdd i wneud eich digwyddiad yn fwy cofiadwy gydag ychydig o bethau ychwanegol. Trowch ddigwyddiad syml yn ddigwyddiad mwy ystyrlon gydag addurniadau thematig, bwyd, cerddoriaeth, gemau a gweithgareddau sy'n ychwanegu at yr awyrgylch, sbarduno sgyrsiau ac annog pawb i ymuno. Dyma sut!**

## BYNTIN A BANERI

Yn Y Cinio Mawr, rydyn ni wrth ein bodd â byntin a does dim byd yn dynodi dathliad cymunedol neu barti stryd cystal! Hongiwch rai i ychwanegu sblash o liw a dewiswch ddyluniadau coch, gwyn a glas neu Faner yr Undeb am naws glasurol Diwrnod VE.

Awydd gwneud eich baneri papur eich hun? Fe welwch dempled hawdd a chyfarwyddiadau yn eich pecyn Diwrnod VE. Rhowch nhw i mewn i jariau jam neu fasys gwag i ychwanegu lliw ar y byrddau, neu beth am gael bwrdd 'Gwneud Eich Baner Eich Hun' i roi cyfle i'r gwesteion fod yn greadigol ar y diwrnod.

## ADDURNIADAU TE PARTI

Beth am drefnu te parti clasurol o'r 1940au a dod â mymryn o hiraeth i'ch dathliad. Ewch i'ch siop elusen leol am addurniadau blodeuog ar gyfer y byrddau, cwpanau te annhebyg i'w gilydd a doilis les i greu naws vintage go iawn.

Os ydych chi'n gweini bwyd bys a bawd a danteithion melys bach, gwelwch a oes gan unrhyw un stondin gacennau i'w benthyg am y diwrnod – mae'n ffordd hawdd o ychwanegu steil at eich bwrdd ac yn ffordd hwyliog o arddangos gwahanol fwydydd.

## MURLUNIAU CELF STRYD A DARLUNIAU SIALC

Os bydd gofod yn caniatáu a bod gennych ganiatâd, beth am gydweithio ag artist lleol i greu murlun ar thema Diwrnod VE? Gallai hyn gipio eiliadau eiconig o'r cyfnod, megis dathliadau stryd llawen neu symbolau o undod.

Anogwch eich cymuned i fod yn greadigol ac ymuno â chelf sialc ar balmentydd. Gallent ddylunio posteri hwyliog mewn arddull vintage, ysgrifennu negeseuon heddwch neu greu arddangosfa o babïau fel teyrnged i'r rhai a wasanaethodd.

> **Rydyn ni'n hen law yn trefnu'r Cinio Mawr erbyn hyn - rydyn ni'n gwybod pwy all ddod â bwrdd mawr, pwy sydd â gasebo a phwy fydd yn dod â'u ryseitiau arbennig. Mae gennym ni Becky drws nesaf sy'n gwneud ei baklava anhygoel, a Jane lawr y ffordd sy'n gwneud strwdel gan ddefnyddio afalau o'i rhandiroedd. Mae gan bawb bethau maen nhw'n edrych ymlaen atynt bob blwyddyn.**
>
> Helen, trefnydd y Cinio Mawr

## RYSEITIAU WEDI'U HYSBRYDOLI GAN DDOGNI

Oeddech chi'n gwybod bod pastai afalau adeg rhyfel yn defnyddio moron wedi'u gratio i ychwanegu melyster naturiol pan oedd siwgr yn brin?

Dathlwch greadigrwydd coginio yn ystod y rhyfel a gosodwch her dogni fel rhan o'ch digwyddiad. A all gwesteion greu prydau blasus gan ddefnyddio cyn lleied o gynhwysion â phosibl - yn union fel y byddai teuluoedd wedi'i wneud yn ystod y rhyfel?

## CYSTADLEUAETH POBI SBWNG FICTORIA

Beth am drefnu cystadleuaeth pobi cacen hwylus wedi'i ysbrydoli gan Ddiwrnod VE. Gwahoddwch westeion i ddod â'u cacen sbwng Victoria orau gyda nhw neu i wneud eu fersiwn nhw o glasur o gyfnod y rhyfel. Gallai categorïau gynnwys Mwyaf Traddodiadol, Fersiwn Orau o Rysáit adeg y Rhyfel neu'r Addurn Mwyaf Creadigol – gofynnwch i bawb bleidleisio dros eu ffefrynnau a choronwch y pobydd gorau!



## CAMWCH YN ÔL MEWN AMSER

Dewch â'ch cymuned ehangach ynghyd drwy wahodd grwpiau lleol, cyn-filwyr neu haneswyr i ddod i rannu straeon o'r 1940au. Beth am gael ardal fach lle gall pobl ychwanegu at arddangosfa Diwrnod VE gydag unrhyw bethau cofiadwy sydd ganddynt, megis cardiau dogni, gwisgoedd, hen bapurau newydd, posteri amser rhyfel, llythyrau a lluniau. Bydd creu casgliad ar y cyd o atgofion ac arteffactau yn dod â hanes yn fyw ac yn helpu i sbarduno sgyrsiau.

### CARDIAU DWEUD DIOLCH I'R GYMUNED

sefydlwch orsaf lle gall gwesteion ysgrifennu neges neu dynnu llun o ddiolch i gyn-filwyr, aelodau gweithredol o'r lluoedd arfog neu'r rhai sy'n cadw'r gymuned yn gysylltiedig heddiw. Boed yn nodyn twymgalon neu'n ddarlun lliwgar, gellir arddangos y negeseuon hyn yn eich digwyddiad neu eu dosbarthu i gymdeithas cyn-filwyr leol fel arwydd o werthfawrogiad.

## AMSER I GOFIO

Dewch â phawb at ei gilydd ar gyfer araith fer neu funud o dawelwch/myfyrdod yn eich digwyddiad i anrhydeddu arwyddocâd Diwrnod VE. Mae'r saib byr hwn yn galluogi gwesteion i fyfyrio ar yr aberthau a wnaed yn ystod y rhyfel ac i dalu teyrnged i'r rhai a wasanaethodd.

## BYDDWCH YN FFANSI

Anogwch bobl i wisgo mewn gwisgoedd wedi'u hysbrydoli o'r 1940au neu ffasiwn vintage. Meddyliwch am lifrai, oferôls merched y tir, ffrogiau te, neu siwtiau a hetiau destlus. Os nad yw gwisg ffansi lawn at ddant pawb, bydd sblash o goch, gwyn a glas yn dal i ychwanegu at yr achlysur!

# HWYL YR IARD CHWARAE

Dewch ag ymdeimlad o gymuned i'ch dathliad Diwrnod VE gyda gemau stryd clasurol, hen ffasiwn. Mae'r gweithgareddau syml ond digyfnewid hyn o'r 1940au yn siŵr o ddod â phobl at ei gilydd i gael ychydig o hwyl:

- **Chwarae pôtsh** – marciwch grid pôtsh gyda sialc a gwahoddwch westeion o bob oed i roi cynnig ar yr hoff weithgaredd hwn yn yr iard chwarae.
- **Heriau rhaffau sgipio** - darparwch raffau sgipio hir a gweld pwy all neidio fwyaf o weithiau yn olynol neu dewch â grŵp at ei gilydd i gael ychydig o hwyl yn cyd-sgipio.
- **Gemau pêl a chwarae palmant** - cadwch bethau'n syml gyda gemau sydd angen dim ond sialc, pêl a gofod diogel (fel ffordd gaeedig). Marciwch grid noughts and crosses anferth neu trefnwch gêm o datws poeth i bawb ei mwynhau
- **Clapio clasurol** – gwahoddwch bawb i ymuno yn hwyl hiraethus rhigymau buarth a gemau clapio traddodiadol.
- **Tynnu rhaff** - gweithgaredd hwyliog, egnïol sy'n dod â phobl at ei gilydd am brawf o waith tîm a chryfder, perffaith ar gyfer creu cystadleuaeth gyfeillgar a llawer o chwerthin.

# CADWCH EICH PEN A DAL ATI I GWISIO

Profwch gof pawb gyda chwis ar thema Diwrnod VE. Mae un parod yn eich pecyn Diwrnod VE neu gallwch greu un eich hun. Cynhwyswch gwestiynau am Ddiwrnod VE, hanes yr Ail Ryfel Byd a Phrydain adeg y rhyfel, gan gwmpasu popeth o ddogni ac areithiau enwog i ganeuon poblogaidd y cyfnod.

Ychwanegwch enwau timau, rownd bonws cyflym a gwobrau bach i'r tîm buddugol i ychwanegu at yr ymdeimlad o gyfeillgarwch.

# GWAHODD Y BAND



Oes yna fand lleol neu ensemble jazz y gallwch chi ei wahodd i ddod â naws y 1940au yn fyw? Neu beth am athro neu grŵp dawns lleol a allai rannu symudiadau rhai dawnsiau clasurol fel Lindy hop neu Jitterbug?

Ail-grewch awyrgylch dathlu Diwrnod VE a chael pawb i symud gyda dawnsiau bywiog y 1940au. Beth am chwarae cerddoriaeth swing, jive a bandiau mawr i greu'r naws!

**P'un a ydych chi'n dewis ail-greu naws vintage y 1940au gyda the parti, yn rhannu straeon trwy arddangosfa femorabilia, neu'n cynnal cystadleuaeth gyfeillgar gyda heriau pobi wedi'u hysbrydoli gan y rhyfel, bydd ychwanegu rhai pethau bach at eich dathliad Diwrnod VE yn ei wneud yn wirioneddol gofiadwy.**

**Trwy greu diwrnod llawn hwyl gyda bwyd, cerddoriaeth, gemau a gweithgareddau, byddwch nid yn unig yn dod â phobl at ei gilydd ond hefyd yn ysbrydoli ymdeimlad o gymuned ac yn helpu pawb i gysylltu â hanes y dydd.**

Ar gyfer syniadau ac ysbrydoliaeth - gan gynnwys ryseitiau, gemau a phethau y gallwch eu gwneud, ewch i **YCinioMawr.com**

Dathlu pen-blwydd Diwrnod VE yn 80 oed.
**ve-vjday80.gov.uk/cy**

Wedi'i chyflwyno i chi gan
Brought to you by

# MAKE IT MEMORABLE

**As your plans get underway for joining in the 80th anniversary of VE Day celebrations, there are plenty of ways to make your event more memorable with a few little extras.**

**Turn a simple get-together into a more meaningful event with themed decorations, food, music, games and activities that add to the atmosphere, spark conversations and encourage everyone to join in. Here's how!**

## BUNTING AND FLAGS

At The Big Lunch, we love bunting and nothing says community celebration or street party quite like it! String some up to add a splash of colour and choose red, white and blue or Union Flags designs for a classic VE Day look.

Fancy making your own paper flags? You'll find an easy template and instructions in your VE Day pack. Pop them into jam jars or empty vases to brighten up tables, or set up a 'Make Your Own Flag' station so guests can get creative on the day.

## TEA PARTY TOUCHES

Embrace the charm of a classic 1940s tea party and bring a touch of nostalgia to your celebration. Check out your local charity shop for floral table settings, mismatched teacups and lace doilies to create an authentic vintage feel.

If you're serving finger food and bite-sized treats see if anyone has a cake stand to lend for the day – it's an easy way to add some style to your spread and a fun way to display different food. A few small bunches of fresh flowers will brighten the table and be a cheerful touch too.

## STREET ART MURALS AND CHALK DRAWINGS

If space allows and you've got permission, why not collaborate with a local artist to create a VE Day-themed mural? This could capture iconic moments from the era, such as joyful street celebrations or symbols of unity.

Encourage your community to get creative and join in with chalk art on pavements. They could design fun vintage-style posters, write messages of peace or create a display of poppies as a tribute to those who served.

> **We have our Big Lunch down to a fine art now – we know who can bring a big table, who has the gazebos and who will be bringing their special recipes. We have Becky from next door who makes her amazing baklava, and Jane down the road who makes strudel using apples from her allotments. Everyone has things they look forward to each year.**
>
> Helen, a Big Lunch organiser

## RATION-INSPIRED RECIPES

Did you know that wartime apple pie used grated carrots to add natural sweetness when sugar was scarce?

Celebrate the creativity of wartime cooking and set a ration challenge as part of your get together. Can guests create tasty dishes using as few ingredients as possible – just like families would have done during the war?

## VICTORIA SPONGE BAKE-OFF

Get ready for a bit of friendly competition with a VE Day-inspired bake-off. Invite guests to bring along their best Victoria sponge cake or put their own spin on a wartime-classic. Categories could include Most Traditional, Best Wartime Twist, or Most Creative Decoration – ask everyone to vote for their favourites and crown someone star baker!



## STEP BACK IN TIME

Bring your wider community together by inviting local groups, veterans or historians to come and share stories from the 1940s. Set up a small space where people can add to a VE Day display with any memorabilia they have, such as ration cards, uniforms, old newspapers, wartime posters, letters and photographs. Creating a shared collection of memories and artifacts will bring history to life and help spark conversations.

### COMMUNITY THANK YOU CARDS

Set up a station where guests can write or draw messages of thanks to veterans, active service members or those who keep the community connected today. Whether it's a heartfelt note or a colourful drawing, these messages can be displayed at your event or delivered to a local veterans' association as a token of appreciation.

## TIME TO REMEMBER

Gather everyone together for a short speech or a moment of silence/reflection at your event to honour the significance of VE Day. This short pause allows guests to reflect on the sacrifices made during the war and to pay tribute to those who served.

## GET FANCY

Encourage people to dress in 1940s inspired outfits or vintage fashion. Think uniforms, land girl overalls, tea dresses, or dapper suits and hats. If full fancy dress isn't for everyone, a splash of red, white, and blue will still add to the occasion!

## PLAYGROUND FUN

Bring a sense of community to your VE Day celebration with classic, old-fashioned street games. These simple yet timeless activities from the 1940s are sure to bring people together for some light-hearted fun:


- **Hopscotch** – mark out a hopscotch grid with chalk and invite guests of all ages to have a go at this playground favourite.
- **Skipping rope challenges** – provide long skipping ropes and see who can jump the most times in a row or get a group together for some coordinated skipping fun.
- **Ball games and pavement play** – keep it simple with games that need just chalk, a ball and safe space (like a closed road). Mark out a giant noughts and crosses grid or get a game of hot potato going for all to enjoy.
- **Classic clapping** – invite everyone to join in the nostalgic fun of old-school playground rhymes and clapping games.
- **Tug of war** – a fun, energetic activity that brings people together for a test of teamwork and strength, perfect for creating some friendly competition and lots of laughs.

## KEEP CALM AND QUIZ ON

Put everyone's knowledge to the test with a VE Day-themed trivia quiz. There's a readymade one in your VE Day pack or you can create your own. Include questions about VE Day, WWII history and wartime Britain, covering everything from rationing and famous speeches to popular songs of the era.

Team names, a quick-fire bonus round and small prizes for the winning team will add to the camaraderie!

## BIG BAND BASH



Is there a local band or jazz ensemble you can invite to bring the 1940s vibe to life? Or how about a local dance teacher or group that could share a few classic moves like Lindy hop or Jitterbug?

Recreate the celebratory atmosphere of VE Day and get everyone moving with a lively 1940s dance-off. Set the scene with sounds of swing, jive, and big band music!

**Whether you choose to recreate the vintage charm of the 1940s with a tea party, share stories through a memorabilia display, or host a friendly competition with wartime-inspired baking challenges, adding a little extra to your VE Day celebration will make it truly memorable.**

**By creating a fun day filled with food, music, games and activities, you'll not only bring people together but also inspire a sense of community and help everyone connect with the history of the day.**

For more ideas and inspiration – including recipes, games and things you can do visit **TheBigLunch.com**

Celebrating VE Day's 80th anniversary.
**ve-vjday80.gov.uk**

Brought to you by THE BIG LUNCH